# CRYNODEB CYFARFOD
# Cyfarfod Blynyddol Cyngor Cymuned Llanycil

Nos Fawrth, Mai 14eg 2024 am 8.00 o'r gloch yn Neuadd Maesywaen.

Presennol: Huw Charles (cadeirydd), Euros Puw, Gwynfryn Williams, Geraint Jones, Arwel Davies, Rhys Jones, Cyng.Elwyn Edwards a'r clerc.
Ymddiheuriadau: Rhys Richards.

i) Croesawu'r cynghorwyr - **croesawyd y cynghorwyr i'r cyfarfod. Anfonwyd ein dymuniadau gorau i Catrin Roberts ar achlysur ei phriodas ym mis Mehefin.**

ii) Ethol Is-gadeirydd ac Aelod Newydd - **etholwyd Rhys Richards yn is-gadeirydd. Eglurodd y clerc fod Adran Etholiadau Cyngor Gwynedd wedi bod o dan bwysau gwaith a newydd dderbyn yr hysbysiad 'Sedd Wag' oedd y Cyngor. Cytunwyd i'w arddangos y mannau priodol.**

iii) Cynrychiolwyr ar bwyllgorau:- **ail-etholwyd y cynrychiolwyr ar y pwyllgorau canlynol:-**
Pwyllgor Un Llais Cymru: Dewis cynrychiolydd pan fydd y Cyngor yn derbyn manylion y cyfarfodydd.

Partneriaeth Penllyn: Catrin Roberts ac Arwel Davies
Gorff Llywodraethol Ffederasiwn Cysgod y Foel: Rhys Jones.
Cyfarfodydd Lleol yr Heddlu – Arwel Davies a Rhys Richards

iv) Adroddiad Blynyddol y Cyngor – **cymeradwywyd. Cytunwyd i wahodd CFFI Maesywaen i gydweithio gyda'r Cyngor Cymuned fel rhan o'r Cynllun Bioamrywiaeth.**

v) Cyfrifon 2023-24 - **cymeradwywyd**

vi) Archwiliad Blynyddol y Cyngor – **eglurodd y Clerc fod cyfrifon 2023-24 yn destun archwiliad llawn ac roedd trefniadau mewn lle i anfon y dogfennau perthnasol i'r archwilwyr mewnol ac yn ddiweddarach i Archwilio Cymru.**

vii) Gydnabyddiaeth Ariannol i'r Cynghorwyr 2024/25 - **cofnodwyd y llythyrau a dderbyniwyd gan y cynghorwyr yn cadarnhau nad oeddynt am hawlio'r cydnabyddiaethau ariannol gorfodol.**

viii) Adolygu Asedau – **adolygwyd y rhestr a chafwyd yn gywir. Cadarnhaodd fod y llochesi bws wedi cael ei archwilio ac nid oedd unrhyw fater i'w drafod.**

ix) Adolygu Polisïau a Rheoliadau'r Cyngor - a**dolygwyd a chafwyd yn gywir.**